

Dramâu Nadolig i blant a phobl ifanc

Bwriedir y pedwar cyflwyniad a ganlyn fel math ar arweiniad at uchafbwynt, sef golygfa draddodiadol y preseb gyda Mair, Joseff, y Bugeiliaid a'r Doethion, ayyb. Pan geir digon o blant i gymryd rhan gellir symud yn syth, ar ddiwedd y cyflwyniad a ddewiswyd, at olygfa'r preseb. Pan fydd rhaid defnyddio'r un actorion ar gyfer y cyflwyniad a golygfa'r preseb, gellir manteisio ar y cyfle i ganu carol neu ddwy yn y gynulleidfa, offrymu gweddi a gwrando ar ddarlleniad (cyfle i blant hŷn a phobl ifanc yma) tra bo'r plant llai yn newid eu gwisgoed. Gellir cyflwyno golygfa'r preseb ar y diwedd ymhob achos yn hollol syml fel tableau os dymunir, a'r plant yn canu carolau cyfarwydd i ddweud y stori.

Y Newyddion Da

Cymeriadau: Tua deg o angylion

Y Llwyfan: Yn cyfleu awyr y nos uwchben Bethlehem (sêr ar gefndir du ar gefn y llwyfan, cymylau, bagiau ffa/stolion ayyb wedi'u gorchuddio â deunydd ysgafn gwyn).

Mae Angel 1 ar ei ben ei hun yn brysur iawn yn gloywi'r sêr ac yn tacluso'r cymylau. Daw Angel 2 i mewn ar frys yn cario sgrôl wedi'i lapio.

Angel 2: Helô ! Sut wyt ti? Rwy'ti'n edrych yn brysur iawn.

Angel 1: Ydw wir ... mae 'na wastad rywbeth i'w wneud.

Angel 2: Wel, bydd rhaid iti anghofio'r glanhau am ychydig. Mae Duw am inni roi neges bwysig i'r byd. Ble mae'r angylion eraill?

Angel 1: Bydd angen llawer o leisiau mae'n siŵr. Mae'n well imi alw ar bawb.

Angel 2: Mae gen i syniad gwell (*mae'n codi drwm/chwib/symbalau ... ac yn gwneud digon o sŵn. Daw'r angylion eraill i'r llwyfan o wahanol gyfeiriadau yn yr ystafell*)

Angel 3: Dyma ni!

Angel 4: Rydan ni'n brysur iawn. Beth sy'n bod?

Angel 5: Pam galw pawb fel hyn?

Angel 6: Oes 'na dân?

- Angel 7:** Oes rhywun yn sâl?
- Angel 2:** Dim byd o'r fath ... ond mae gen i waith pwysig inni i gyd.
- Angel 8:** Mi oeddwn i'n gwneud gwaith pwysig yn barod ... yn edrych ar ôl plentyn bach yn cysgu.
- Angel 6:** Ac mi oeddwn innau'n gwylio dros deulu bach yng Nghymru.
- Angel 5:** Mi ydw i wedi hedfan o bell ac mae f'adenydd yn brifo. Oes 'na gwmwl braf esmwyth yn rhywle i mi gael cysgu?
- Angel 2:** Dydy hi ddim yn amser cysgu rŵan ... Mae Duw wedi rhoi gwaith andros o bwysig inni.
- Angel 3:** Ond mae hi'n ganol nos ... mae pawb yn cysgu.
- Angel 1 :** Nac ydyn. Drychwch ... i lawr yn fan'cw. Be' welwch chi?
- Angel 9:** Defaid ...
- Angel 10:** ... a defaid ...
- Angel 9:** ... a ... a ... a MWY o ddefaid.
- Angel 4:** Wel ... dyna GYMRU siŵr o fod.
- Angel 5:** Nage wir. Gwlad fach o'r enw Jwdea sydd i lawr yn fan'na.
- Angel 1:** Cywir! Ond edrychwch yn iawn rŵan. Oes 'na rywun efo'r defaid?
- Angel 7:** O ... oes ... mae 'na griw o bobl reit flêr ... o gwmpas coelcerth.

Angel 2: Dyna chi ... dyna'r bobl sy'n gofalu am y defaid. Bugeiliaid ydyn nhw ... ac mae Duw am inni roi neges bwysig iawn iddyn nhw.

Angel 8: Beth ydy'r neges?

Angel 2: (*yn agor y sgrôl ac yn dechrau darllen*) Nac ofnwch ...

Angel 7: (*yn torri ar draws*) Pam dweud hynny?

Angel 5: Wel ... fydd pobl y ddaear ddim yn gweld angylion yn aml iawn ... mi fyddan nhw'n siŵr o gael braw i ddechrau.

Angel 2: Distaw rŵan ... a gwrandwch! (*yn dechrau darllen eto*)

'Nac ofnwch: canys wele, yr wyf fi yn mynegi i chwi newyddion da o lawenydd mawr, yr hwn a fydd i'r holl bobl: Canys ganwyd i chwi heddiw Geidwad yn ninas Dafydd, yr hwn yw Crist yr Arglwydd.'

Angel 1: Ga' i ddarllen y gweddill?

Angel 2: Cei, siŵr ... os wyt ti'n ofalus.

Angel 1: (*yn darllen*) 'A hyn fydd arwydd i chwi; Chwi a gewch y dyn bach wedi ei rwymo mewn cadachau, a'i ddodi yn y preseb.'

Angel 4: Wel am neges hir. Mae 'na andros o lot o eiriau anodd i'w cofio, on'd oes?

Angel 2: Mae gen i syniad da ... beth am inni ganu'r newyddion da i'r bugeiliaid yn ein geiriau ni'n hunain?

Angel 1: Ardderchog ... dewch yma inni ddechrau trefnu.

(Pawb yn closio at ei gilydd i edrych ar y neges ... hymian ambell nodyn ... cynnig llinellau'n betrus ar lafar ...)

Angel 7: Nac ofnwch, fugeiliaid,
Ond brysiwch i gyd

Angel 8: I weled y Baban
Sy'n Geidwad y Byd

Angel 3: Yn hen Ddinas Dafydd
Mewn gwely o wair,

Angel 6: Yn glyd mewn cadachau
Gan Joseff a Mair.

Angel 5: Gogoniant a roddwn
I Dduw yn y nef.
Tangnefedd i ddynion
Sy'n blant iddo Ef.

Angel 4: Gogoniant! Tangnefedd!
Yr Iesu sy'n Ben!
Gogoniant! Tangnefedd!
Byth bythoedd. Amen.

Angel 1: Iawn 'te. Ydach chi'n barod i ganu i'r bugeiliaid rŵan?

Pawb: Ydan!

Angel 2: Efo'n gilydd felly ... un dau ... tri! *(yn taro nodyn)*

(Yr angylion i gyd yn canu'r geiriau uchod ar dôn 'Draw 'mhell yn y preseb')

Coronwch Ef yn Ben

Angel 2: (*gan edrych i lawr ar y gynulleidfa*) Edrychwch ... mae'r bugeiliaid yn symud draw oddi wrth y tân ...

Angel 5: Maen nhw'n hel eu pethau ...

Angel 1: ... ac yn cychwyn i lawr o'r bryniau tua Bethlehem.

Pawb: Gawn ni fynd i weld hefyd?

Angel 2: Cawn wrth gwrs! A chaiff un ohonoch chi fynd at y preseb i wyllo dros y Baban Iesu.

(Pawb yn gadael y llwyfan dan ganu, e.e. 'Bethlehem, Bethlehem, Mae pawb yn teithio tua Bethlehem' (Clywch Lu'r Nef, Gwasg Pantycelyn)

Golygfa'r Preseb

Noson y Wyrth

Cymeriadau: *Llefarydd*
Isaac (Gŵr y Llety)
Miriam (Gwraig y Llety)
Joseff
Mair
Bugeiliaid
Tri Brenin

Y Llwyfan: *Gellir lleoli'r llety ar un ochr i'r llwyfan, y stabal yr ochr arall a'r llofft yn y pulpud.*

Llefarydd:

Dewch gyda mi am funud. (SAIB)

Anghofiwch am (enw'r capel) a (enw'r dref) a Chymru. (SAIB)

Ffarweliwch â'r flwyddyn dwy fil a – ... a dewch am dro i Fethlehem Jwdea dros ddwy fil o flynyddoedd yn ôl. (SAIB)

Yno ... ar gyrion y ddinas, mae gwesty bach di-nod ... ac yn y gwesty bach di-nod hwn mae 'na brysurdeb mawr ... a CHWYNO mawr! Dewch yn nes ... dewch yn nes i wrando ...

(Yn y llety. Mae Miriam yn brysur ... ac Isaac yn gorffwys)

Isaac: *(yn gwynfanus)* Wel am ddiwrnod ... mae 'mhen i'n troi! Welais i 'rïoed gymaint o bobl. Dwi wedi bod ar fy nhraed ers y bore bach ... yn symud gwllâu ... yn nôl dŵr ... yn paratoi bwyd ...

Miriam: *(yn gwenu)* A hynny i gyd ar dy ben dy hun, mae'n siŵr!

Isaac: (*yn gyndyn o gyfaddef*) Wel na ... ddim yn union. Mi wnest ti helpu ryw faint bach mae'n debyg ... ond 'drycha! Mae'r tŷ'n llawn dop ac mae'r bobl yn dal i ddod (*yn craffu ar y gynulleidfa*). Mae 'na ugeiniau ohonyn nhw'n eistedd allan yn fan'na rŵan!

Miriam: Maen nhw'n disgwyl cael llety yn rhywle mae'n debyg. Ond fedrwn ni ddim eu helpu nhw a ninnau'n llawn ers dechrau'r pnawn.

Isaac: (*yn craffu eto ar y gynulleidfa'n rwgnachlyd*) Go brin y basen nhw eisiau aros yma. Fydden ni ddim yn ddigon da i'r math yna o bobl. Mae golwg digon cefnog arnyn nhw. Mae'r rheina'n bobl grand iawn iti ... yn disgwyl pedair seren o leiaf ... ac *ensuite* ... Mynd am yr HILTON ynghanol y dre wnân **nhw** mae'n siŵr iti.

Miriam: Mae'n debyg dy fod yn llygad dy le, Isaac. Ond mae'n siŵr bod yr HILTON hyd yn oed yn llawn erbyn hyn. Welais i erioed gymaint o bobl ... naddo wir.

Isaac: Ar yr hen Awgwstws Cesar 'na mae'r bai. Lecies i erioed mo'r dyn. Rhyw chwilen yn ei ben bob munud i fwydro pobl. Tynnu pobl yma am ddim rheswm o gwbl.

Miriam: Wel, eisiau cofrestru pawb mae o ... er mwyn ein trethu ni i gyd.

Isaac: Dyna ni eto. Treth, treth, treth! Pres, pres, pres. Gwaith, gwaith, gwaith ... does 'na ddim diwedd. Ac mae'n debyg y bydd yfory'r un fath.

Miriam: Tyrd, Isaac. Paid â bod mor flin efo pawb a phopeth. Noson dda o gwsg sydd angen. Digon i'r diwrnod ei ddrwg ei hun.

Isaac: Mae hynny'n wir. Does ond gobeithio y cawn ni lonydd i gysgu ... ond dwn i ddim sut, efo cymaint o bobl ddiarth o gwmpas. Mae 'mhen i'n dal i droi!

Miriam: (*yn syllu ar y gynulleidfa*) Wel, mae'r rheiny allan yn fanna'n ddigon distaw beth bynnag. Pawb yn eistedd yn llonydd ac yn edrych yn barchus iawn. Tyrd, Isaac. (*y ddau yn mynd o'r golwg i'r 'llofft' yn y pulpud*)

Rhyw hanner munud o gerddoriaeth sy'n awgrymu cwsg (e.e. Hwiangerdd Brahms)

Daw ychydig o chwyrnu ysgafn o'r 'llofft'.

Ychydig mwy o'r un gerddoriaeth ... yn distewi'n araf ... a darfod.

Yn ystod hyn i gyd mae Mair a Joseff wedi dechrau'n ddistaw ar eu 'taith' o gwmpas y capel a thuag at y llety. Wrth nesáu at y llety (a phan fydd y gerddoriaeth arall wedi dod i ben) gellid canu 'Asyn Bychan' neu garol debyg sy'n sôn am y daith.

Mair a Joseff yn cyrraedd y llety.

Canu : CNOG CNOG CNOG (**Byd Plentyn**, Gwasg y Lolfa)

Gellir trefnu bod y gân yn gorffen gyda Miriam yn canu:

*'Does dim lle ond stabal bach
Mae'n ddigon clyd a glân.'*

Mae Isaac yn troi yn ôl i'r llofft yn flin ...

Isaac: Wyt ti'n dod yn ôl i'r gwely, Miriam? Mae hi'n HANNER NOS!

Miriam: Hanner munud! (*wrth M a J*) Cymerwch y rhain i'ch cadw chi'n gynnes.

Mair a Joseff: Diolch yn fawr.

Mae Miriam yn estyn blancedi i Mair a Joseff ac yn cael sgwrs fach ddistaw efo nhw. Mae hi'n dangos y ffordd i'r stabal. Mair a Joseff yn mynd i'r 'stabal' ar ochr arall y llwyfan. Mae Miriam yn mynd yn ôl i'r gwely.

Isaac: Mae pob math o boblach hyd y lle heno. Does wybod o ble mae pawb yn dod.

Miriam: Wel, rhai digon annwyl oedd rheina, Isaac. Mair a Joseff oedd eu henwau. Y cr'aduriaid wedi teithio o bell ... o Nasareth ... wedi blino'n lân ... ac mae hi'n disgwyl plentyn.

Isaac: Wel, mi ydw innau wedi blino'n lân hefyd. Distaw rwan ... a chysgu!

Hwiangerdd eto ... ond ar ôl ychydig o fariau mae'r dôn yn mynd yn ddryslud ac yn amhersain ... i awgrymu diffyg cwsg.

Miriam: Dwi'n methu cysgu rwan. Mae 'na olau mawr y tu allan. Be' ydy o? (*yn edrych drwy'r ffenestr*) Isaac! Isaac! 'drycha! Mae 'na seren ENFAWR uwchben y tŷ!

Isaac: OOOOO. Paid â gweiddi, ddynes! Rho dy ben dan y dillad a chau dy lygaid! Mae hi'n UN o'r gloch. Gad i ddyn gael tipyn o gwsg.

Ychydig fariau o'r hwiangerdd eto. Y bugeiliaid yn cerdded i fyny'r capel yn ystod yr hwiangerdd. Cyn cyrraedd y llety cenir pennill 3 o emyn 431 ... yna, wrth gyrraedd y llety, cenir:

'CNOC CNOC CNOC curo ar y drws' (*dim ond y llinell honno*)

Isaac: (*yn gweiddi o'r llofft*) Pwy sy yno rwan eto fyth?

Bugeiliaid: Bugeiliaid ydan ni –
Wedi dod i chwilio am Joseff a Mair.
Mae rhywbeth pwysig wedi digwydd heno.

Isaac: Pwysig neu beidio – mae hi'n ddau o'r gloch y bore!!!! Dewch yn ôl yfory.

Miriam: Shhhhh! (*gan anwybyddu Isaac*) Os ewch chi rownd y cefn mi welwch chi Mair a Joseff yn y stabal.

Bugeiliaid: Diolch. Diolch yn fawr iawn.

Isaac: (*yn dal yn rwgnachlyd*) Dwn i ddim wir! Beth sy'n bod ar bawb heno?

Miriam: Paid â bod mor flin, Isaac. Cysga rŵan.

Miwsig hwiangerdd tra bo'r tri brenin yn cychwyn ar eu taith ... y miwsig yn distewi'n araf.

Wrth nesáu at y llety cenir pennill 2 o emyn rhif 431.

Yna (wrth gyrraedd):

CNOC CNOC CNOC ... curo ar y drws;

Dilyn seren wnaethon ni,

Mae'n sefyll fry uwchben.

Isaac: Seren! Peidiwch â sôn am seren! Mae hi fel golau dydd yma. Ac mae hi'n dri o'r gloch!!! Sut mae dyn i fod i gysgu?

Miriam: Maen nhw'n edrych yn grand gynddeiriog, Isaac. Pwy ydyn nhw?

Brenhinoedd: Tri Brenin ydym ni ... yn dod ag anrhegion i'r baban ... Aur ... a thus ... a myrr.

Isaac: (*yn anghwrtais*) BRENHINOEDD! BABAN!! Be' nesa'?

Miriam: (*yn gwrtais*) Dwi ddim yn meddwl bod 'na faban yma. Mae 'na gwplw ifanc ... Mair a Joseff ... yn y stabal, ond ...

(Clywir sŵn babi'n crio ... ac yna Mair yn canu 'Mae 'na faban bach' (Cân y Ddraig, Curiad)

Mae pawb yn troi i gyfeiriad y stabal i wrando)

Miriam: (*gan fynd tuag at y Brenhinoedd*) Wel wir ... mae 'na fabi yno wedi'r cyfan. Am le rhyfedd i gael ei eni. Druan bach. Awn ni i groesawu'r babi bach i'r byd. Dewch gyda mi, foneddigion.

Isaac: (*yn aros yn ei unfan yn benderfynol*) Am ffys a ffwdan dros un babi bach!

Pawb heblaw Isaac yn mynd i'r stabal. Ar ôl ychydig mae o'n ailfeddwl ac yn eu dilyn.

Isaac: Mae'n well imi gael gweld be' sy'n mynd ymlaen. Wedi'r cyfan fy stabal i ydy o.

(Daw'r stabal i'r golwg trwy dynnu'r llen sy'n cuddio'r lle, a gwelir y Brenhinoedd fesul un yn rhoi eu hanrhegion i'r baban)

Brenin 1: AUR sy gen i yn anrheg iti.

Brenin 2: Dyma THUS i'r baban.

Brenin 3: MYRR sydd yn y bocs bach hwn.

Miriam: Isaac, tyrd yma iti gael gweld y baban yn iawn.

(Mae Isaac yn nesu at y preseb ... a'i wg yn troi'n wên)

Isaac: (*yn cael syniad sydyn a'i wyneb yn goleuo*) Wel ... mae o'n edrych yn un bach annwyl ... mae hwn yn fabi bach arbennig iawn ...

Miriam! Dos i nôl planced arall i'w gadw fo'n gynnes. Un drwchus cofia!
(*yna'n ailfeddwl*)

... O ... NA! Aros funud ... mi af i fy hun ... ac mi fydd yn bleser. (*Mae'n mynd o'r stabal gan wenu'n braf. Pan ddaw yn ei ôl mae'n lapio'r blanced am y baban ac yn gwenu'n siriol arno*)

Miriam: (*gan droi i wenu ar y gynulleidfa*) Wel ... dyna wyrth go iawn!

Llefarydd: Do wir ... cyffyrddodd y baban bach â chalon Gŵr y Llety hyd yn oed. (SAIB)

Cafodd cymeriad blin a chwynfanus ei droi'n gymeriad llawen a hoffus. (SAIB)

Roedd llawenydd yn y stabal y noson honno. (SAIB)

Er bod Herod yn chwythu bygythion. (SAIB)

Er mai cael ei wrthod a'i erlid y byddai'r baban bach hwn ar ôl iddo dyfu. (SAIB)

Y noson honno ym Methlehem Jwdea roedd y fendith yn wefr o gwmpas y teulu bach ... a'n byd ni wedi newid am byth. (SAIB)

Gadewch inni aros gyda chwmni'r stabal am ychydig eto i rannu llawenydd y Nadolig cyntaf hwnnw dros ddwy fil o flynyddoedd yn ôl.

(*Y plant yn aros yn y tableau i ganu ychydig o garolau*)

Llefarydd: A dyma gyfle i ninnau'n awr ddangos ein llawenydd drwy ganu'r garol rhif 438 i gloi ein gwasanaeth – *Pan oedd bugeiliaid gyda'u praidd*

Cymeriadau: Nifer o fugeiliaid (rhywfaint o hyblygrwydd yma) ac angel/angylion

Llwyfan: Mae'r bugeiliaid o gwmpas y 'tân' o flaen cefndir serenog [dylai'r preseb fod o'r golwg y tu ôl i'r cefndir a gellir dod â'r cyfan i'r golwg ar ddiwedd golygfa'r bugeiliaid]

(*Cyn y llefaru, gall y plant ganu carol(au) sy'n sôn am y bugeiliaid*)

Bugail 1:

Mae'n well inni gyfri'r defaid,
Pob copa wlanog i gyd,
A'u cadw nhw yn y gorlan,
Pob un yn ddiogel a chlyd.

Bugail 2:

Mae 'na ugain dan y goeden ...

Bugail 3:

Mae 'na ugain ar y bryn ...

Bugail 4:

Mae 'na ugain wrth yr afon ...

Bugail 5:

Ac ugain wrth y llyn!

Bugail 2:

Mae 'na bump yn y gorlan yn barod,
A phump dan y graig fan draw,
A rhai yn ein hymyl yn fama
Oes 'na ddeg? O nac oes! Dim ond NAW... dwi'n meddwl ...

(Y plant 'bach' yn cyfr i ... un, dau ... tri, pedwar, pump ... chwech, saith, wyth, NAW)

Bugail 1:

Mae 'na un ar goll yn sicr,
Yr oen bach dela'n y praidd,
Rhaid chwilio amdano yn gyflym
Rhag ofn caiff ei fwyta gan flaidd!

*Dau o'r bugeiliaid (Y Chwilwyr) yn canu'r geiriau canlynol ar yr alaw
'Un Bugail Bach' (Cân y Ddraig, Curiad)*

Y Chwilwyr:

Awn ni'n dau'n syth i chwilio am yr oen bach,
Arhoswch chi i wyllo'r praidd fan hyn.
Mi fentrwn yn ein blaenau i'r tywyllwch,
Falla 'i fod o'r ochr draw i'r bryn. (*y ddau yn mynd o'r golwg*)

Y Bugeiliaid sydd ar ôl: (*cytgan yr un alaw*)

Ond bydd 'na * bugail bach ar ôl
Yn gwyllo'r defaid syn
* bugail bach a'u gwaith mor fawr
Yn gwarchod godre'r bryn.

Bugail 1:

Ond erbyn meddwl ...
Dwi ddim yn fugail **bach** ddim mwy.
Dwi bron iawn yn ddeg!
Pam na chefais innau fynd?
Dydy bywyd ddim yn deg!
Mae'r gwaith o fugeilio'n ddiflas iawn,
Yn *BORING* a deud y gwir;
Sdim byd byth yn digwydd ar y bryniau hyn
Ac mae'r oriau yn goblyn o hir!

Miwsig arallfydol. Angel/angylion yn codi yn y pulpud ... y bugeiliaid yn rhyfeddu'n ddistaw. Yr angel/angylion yn canu neu'n llefaru'r neges (gellir defnyddio pennill pwrpasol o garol yma, e.e. 'Odlau tyner engyl')

Angel/Angylion:

'Yn y nef gogoniant,
Hedd i ddynol-ryw;
Ganwyd heddiw Geidwad,
Crist yr Arglwydd yw.'

Y bugeiliaid bach: (*yn dweud mewn rhyfeddod, y naill ar ôl y llall, a'r sŵn yn cynyddu wrth fynd ymlaen*)

WAW! WAW! WAW!

Bugail 2:

Rhaid trefnu mynd i Fethlehem
I weld y baban bach.

Bugail 3:

Ond beth am y ddau aeth i chwilio am yr oen?

Bugail 4:

Wel dyma beth yw strach!

(Y sylw yn troi wedyn at y ddau a aeth i chwilio am yr oen. Clywir miwsig 'Defaid William Morgan' a chyn hir mae'r ddau fugail yn ymddangos yng nghefn y capel os yn bosibl ... ac yn cerdded ymlaen dan 'chwilio' yn y seddau am yr oen. Gorau oll os daw un bugail i lawr y naill ochr a'r llall i lawr yr ochr arall)

Chwiliwr 1: *(wrth y gynulleidfa)*

A welsoch chi oen yn rhywle?
Yr un gorau yn y praidd.
Ni welson ni mono ers oriau,
Rydan ni'n dechrau poeni braidd.

Chwiliwr 2:

Rydan ni wedi bod yn chwilio
Am hydoedd am yr oen:
A welsoch chi o yn rhywle?
Mae hyn, go iawn, yn boen.

Chwiliwr 1:

Mae 'na naw deg naw o ddefaid
(Mi'u cyfrais nhw fy hun)
Yn saff o fewn y gorlan,
Y praidd i gyd ... heblaw UN.

Chwiliwr 2:

Mae'n siŵr bod rhywun yma
Yn gallu'n helpu ni.
A wnewch chi chwilio'n gyflym
O dan eich seti chi?

*(Pawb yn chwilio. Rhywun** yn cael hyd i'r oen gan weiddi, 'Dyma fo!' a'i roi i'r bugail agosaf)*

Chwiliwr 1:

Wel dyna newydd hyfryd!

Chwiliwr 1 a 2:

Diolch yn fawr iawn, iawn.

Chwiliwr 2:

Awn at ein ffrindiau rŵan,
A bydd y cyfri'n llawn.

(Mae'r ddau'n ymuno â'r bugeiliaid wrth y tân)

Chwiliwr 2:

Helô, sut hwyl sydd, hogiau?
Oes lle bach ger y tân?
Mae'n traed ni mor flinedig.
'Dan ni wedi blino'n lân.

Chwiliwr 1:

A dyma'r oen bach drygiog
Fu'n crwydro draw ymhell.
'Dach chi ddim yn falch o'i weld o?
'Ron i'n disgwyl croeso gwell!

Bugail 2: *(gan anwybyddu'r oen)*

'Dach chi wedi colli'r cwbl!
Lle buoch chi mor hir?

Bugail 3:

Mi glywson ni angylion ...

Bugail 4:

Do, do ... mae'n dweud y gwir.

Bugail 1:

Am funud roedd yr awyr
Yn llachar iawn uwchben,
A chlywsom alaw swynol
Yn uchel yn y nen.

Bugail 2:

Angylion oedd yn canu
Gan ddatgan neges glir,
A dyma oedd y geiriau
Atseiniai dros y tir.

Bugail 1:

'Yn y nef gogoniant,
Hedd i ddynol-ryw;
Ganwyd heddiw Geidwad,
Crist yr Arglwydd yw.

Bugail 2:

Ym Methlem, dinas Dafydd,
Daeth baban bach i'r byd.
Nac ofnwch nawr ond brysiwch
I weld y wyrth mewn pryd.'

Bugeiliaid 3,4 a 5

Mi awn ni gyda'n gilydd
I ddinas Dafydd draw
I weld y baban bychan
A chydio yn ei law.

Chwiliwr 1 a Chwiliwr 2

A rhoddwn ninnau'n llawen
Yr oen bach dela'n fyw,
Yr oen a fu'n golledig,
Yn anrheg i Oen Duw.

Bugail 1

Dewch hogiau! Bethlehem amdani!

Golygfa'r preseb (*dylid gofalu bod yr oen yn cael ei roi i'r baban Iesu*)

Canu o gwmpas y crud.

* Nifer y bugeiliaid sydd ar ôl.

** Rhaid sicrhau bod rhywun yn y gynulleidfa yn 'gwarchod' yr oen (tegan meddal!) a bod hwnnw o'r golwg nes cael ei 'ddarganfod' a'i ddychwelyd i'r rhai sy'n chwilio.

Pôs y Nadolig

*Dylid trefnu bod y gynulleidfa'n gallu gweld y pôs yn glir (bwrdd du/
bwrdd gwyn/taflunydd)*

*Cymeriadau: Tua deg o blant (rhywfaint o hyblygrwydd yma)
Anti Siân (un o athrawon yr Ysgol Sul)*

*Llwyfan: Mae'r llwyfan wedi'i addurno â chardiau seciwlar a thrimins
Nadolig. Ar hyd y cefn mae llinyn arall yn barod i dderbyn y cardiau
Nadolig mawr y bydd y plant, yn eu tro, yn eu rhoi i Anti Siân.
Mae Anti Siân ar y llwyfan yn edrych ar y pôs ac yn crafu'i phen gan
geisio llenwi'r sgwariau.*

Ffig.1 Y pôs ar ddechrau'r gwasanaeth

		R	O	B	I								
					S		N	T	A				
			C	O	E		E	N					
	C	I	N	I									
T	I	N	S	E									
										E	S	U	
										R	I	S	T
C	A	N	N	W	Y								
			E	I	R								
			C	A	R								
					C		L	Y	N				
		H	O	S	A								

*Mae'r plant, wedi'u gwisgo fel carolwyr, yn cerdded i lawr i flaen y
capel dan ganu cân gyfarwydd Nadoligaidd, **nid** carol (e.e. 'Pwy sy'n*

dŵad dros y bryn ...') ac yn cyrraedd y llwyfan. Mae Anti Siân yn gwahodd y plant i mewn.

Anti Siân: Wel croeso, blant! Da iawn chi. Rydach chi wedi canu'n hyfryd iawn.

Plentyn: Diolch, Anti Siân. Mi ydach chi wedi bod yn brysur yn trimio'r stafell at y Nadolig.

Plentyn: Mae'n edrych yn wych! Ond beth ydy hwn?

Anti Siân: O ... pŵs Nadolig ydy o. Ond mae'n anodd braidd.

Plentyn: Be' 'dach chi'n gorfod ei wneud?

Anti Siân: Ysgrifennu'r geiriau sy'n atgoffa pawb am y Nadolig a chael hyd i'r neges sy'n cuddio. Dwi wedi bod yn edrych ar y cardiau 'ma am dipyn o help. Ond does dim byd yn ffitio.

Plentyn: Mi ydan ni wedi bod wrthi'n gwneud cardiau hefyd.

Plentyn: Ac mae pob un ohonan ni wedi gwneud cerdyn yn arbennig i chi.

Plentyn: Efallai y bydd ein cardiau ni'n help i lenwi'r pŵs a ffeindio'r neges.

Anti Siân: Wel, am hyfryd. Diolch yn fawr iawn ichi, blant. Rydach chi wedi cael hwyl arni. Beth am eu dangos nhw bob un i'r gynulleidfa?

Mae Anti Siân yn cyflwyno'r plant i'r gynulleidfa fesul un wrth iddynt ddod ymlaen i ddangos eu cardiau a dweud eu pennill. Mae Anti Siân wedyn yn hongian y cerdyn dros y llinyn ac yn cwblhau'r gair allweddol yn y pŵs bob tro mewn lliw gwahanol. Erbyn diwedd y cyflwyno cardiau, bydd y geiriau NADOL LLAWEN i'w gweld ar y pŵs.

- Plentyn** (bach): Mae **Robin** Goch yn dod yn hy
Am gardod bach at ddrws y tŷ.
- Plentyn** (bach) A phwy sy'n hedfan dros y to
Ond **Santa** ar ei sled ... Ho! Ho!
- Plentyn:** Mae **coeden** dlos yn olau i gyd
Ar flaen fy ngherdyn i,
A **thinsel** o bob lliw a llun
Yn hongian arni hi.
- Plentyn:** A dyma lun i dynnu dŵr
O ddannedd pawb sydd yma:
Mae 'na **ginio** rhost a phwdin plwm
A thwrci enfawr, cyfa'.
- Plentyn:** Ac ar fy ngherdyn innau
Mi welwch **gannwyll** dlos
Yn gloywi yn y t'wyllwch,
Yn ddisglair yn y nos.
- Plentyn:** Mae **eira** ar fy ngherdyn
A llun dyn eira mawr
Yn chwerthin efo'r plantos
Cyn toddi'n bwll ar lawr.
- Plentyn:** **Carw** bach fel Rudolph
Sydd ar fy ngherdyn i;
Bu'n tynnu'r sled i Santa
Ar draws y sêr di-ri'.
- Plentyn:** Mae'r **celyn** hardd a'i aeron coch
Mewn llun yn grand gynddeiriog,
Ond gwyliwch rhag y dail go iawn!
Maen nhw mor hynod bigog.

Plentyn: Dw inna' wedi lliwio
Llun **hosan** fawr i chi;
Bydd Santa'n llenwi honno
Â rhoddion da i mi.

Anti Siân: Wel, diolch yn fawr i bob un ohonoch. Rydach chi'n garedig iawn yn helpu fel hyn ... ac ... edrychwch ! Mi ydan ni bron iawn â gorffen y pôs!

Plentyn: Dwi'n gallu gweld y neges. Mae'n dweud ... NADOL LLAWEN.

Plentyn: NADOLIG LLAWEN ydy o i fod, yntê?

Plentyn: Ond mae dwy lythyren ar goll, on'd oes? **I a G.**

Anti Siân: **I a G ... I a G.** Ydan ni wedi anghofio rhywbeth pwysig am y Nadolig?

Plentyn: Mi ydan ni'n gwybod ... Iesu Grist!

Anti Siân: Wrth gwrs. *(Mae hi'n cwblhau'r enw i orffen y pôs)*

Ffig.2 Y pôs wedi'i orffen

	R	O	B	I	N				
				S	A	N	T	A	
		C	O	E	D	E	N		
	C	I	N	I	O				
T	I	N	S	E	L				
					I	E	S	U	
					G	R	I	S	T
C	A	N	N	W	Y	LL			
			E	I	R	A			
			C	A	R	W			
					C	E	L	Y	N
	H	O	S	A	N				

Anti Siân: Yng nghanol ein prysurdeb, mi ydan ni wedi anghofio'r person pwysicaf un. O'r holl gardiau lliwgar yma 'does dim un yn dangos Iesu Grist yn y preseb ym Methlehem.

Plentyn: Beth am wneud cerdyn arall ... un sy'n dangos Mair a Joseff a'r Baban Iesu?

Plentyn: A'r bugeiliaid!

Plentyn: A'r doethion hefyd!

Anti Siân: Mae gen i syniad gwell o lawer. Pam na wnewch chi gerdyn Nadolig **BYW**? Mae'n siŵr eich bod yn gallu actio a chanu'n dda.

Y plant: *(ar draws ei gilydd)* Grêt! Syniad da! Gwych! Mae gan Mam wisgoedd gawn ni'u benthyg! Down yn ôl cyn bo hir. Diolch, Anti Siân! Dewch bawb! Brysiwch!

(Mae'r plant yn gadael y llwyfan i baratoi am olygfa'r preseb. Gellir canu carol neu ddwy yn y gynulleidfa/offrymu gweddi/darllen yn y

Coronwch Ef yn Ben

cyfamser. Pan fydd y plant yn barod i ddod yn ôl mae Anti Siân yn eu galw)

Anti Siân: *(yn galw ar y plant sydd o'r golwg)* Ydy'r cerdyn yn barod eto?

Rhai o'r plant: *(yn cyrraedd)* Ydy ... dyma ni!

Anti Siân: Diolch yn fawr iawn, blant. Mi gawn ni i gyd fwynhau'r cerdyn Nadolig gorau posibl!